Chwaraeon Cymru yw enw masnachol
Cyngor Chwaraeon Cymru

At Ddefnydd Swyddfa yn Unig | Rhif Cyfeirio | Dyddiad derbyn

Ffurflen Gais am Grant

Ysgrifennwch mewn inc du neu deipio. Os nad yw cwestiwn yn berthnasol i'ch prosiect chi, nodwch "Amherthnasol".

Ceir nodiadau pellach ynghylch sut i ateb pob cwestiwn yn y canllawiau sydd wedi'u marcio gydag i.

1.0 - Am Eich Sefydliad

1.1 - Manylion y Sefydliad

Enw eich sefydliad (yn llawn)	
Cyfeiriad	
Cod post	

1.2 - Project Details

A yw eich prosiect yn cael ei gynnal yn y cyfeiriad hwn?	☐ Ydy ☐ Nac ydy
Os nad yw, nodwch gyfeiriad y prosiect (yn cynnwys y Cod Post)	
Ym mha Awdurdod Lleol mae eich prosiect yn cael ei gynnal?	
Pryd fydd y prosiect yn dechrau?	
A phryd fydd y prosiect yn gorffen?	

1.3 - Manylion Cyswllt

Teitl	
Enw cyswllt	
Cyfeiriad	

Cod post	
Ffôn (yn ystod y dydd)	
Ffôn (gyda'r nos)	
Ffôn symudol	
E-bost*	
Swydd gyda'r sefydliad	

*Ticiwch os ydych yn fodlon i ni anfon gohebiaeth am y prosiect hwn atoch chi yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodwyd. ☐

1.4 - Manylion Banc

Sut mae enw eich sefydliad yn ymddangos ar eich cyfrif banc? (Nodwch yn llawn os gwelwch yn dda)	

Nodwch yr wybodaeth a ganlyn ar gyfer POB dyfarniad, ac eithrio'r **Gist Gymunedol**, er mwyn cefnogi eich cais:

Enw eich banc / cymdeithas adeiladu Cyfeiriad / Cod Post	
Rhif cyfrif	
Cod didoli'r banc	

1.5 - Natur y Sefydliad

Sut fyddech chi'n disgrifio eich sefydliad?	☐ Clybiau a Chymdeithasau Chwaraeon ☐ Awdurdod Lleol ☐ Sefydliad Addysgol ☐ Sector Preifat/Gweithle ☐ Corff Rheoli Cenedlaethol
Os "Arall", rhowch fanylion os gwelwch yn dda.	
Ydych chi'n sefydliad yn gwneud elw?	☐ Ydym ☐ Nac ydym
Oes gennych chi gyfansoddiad? (amherthnasol i Sefydliadau Statudol, Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus neu Gyrff Rheoli Cenedlaethol)	☐ Oes ☐ Nac oes
A yw eich sefydliad yn aelod o Gorff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol?	☐ Ydy ☐ Nac ydy
Os ydy: nodwch pa Gorff Rheoli Cenedlaethol.	

1.6 - Cyllid yn y Gorffennol

A yw eich sefydliad wedi derbyn cyllid grant gan Chwaraeon Cymru o'r blaen? ☐ Do ☐ Naddo

Os yw enw eich sefydliad wedi newid ers eich dyfarniad diwethaf, nodwch yr enw blaenorol yma

Os Na: Ewch i adran 2.0 - Am Eich Prosiect

Os Do: Beth oedd dyddiad y dyfarniad diwethaf?

Beth oedd gwerth y dyfarniad diwethaf?

A yw'r prosiect wedi cael ei gwblhau? ☐ Do ☐ Naddo

Os Do: Ydych chi wedi cyflwyno'r holl ffurflenni hawlio / monitro? ☐ Do ☐ Naddo

2.0 - Am Eich Prosiect

Beth yw enw eich prosiect?

Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud?

Cewch barhau ar ddalen arall o bapur ar ddiwedd y cais hwn os oes angen.

Pam ydych chi angen gwneud y prosiect yma?

3.0 - Am Eich Aelodaeth a'ch Rhaglen Weithgarwch

3.1 - Sesiynau / Cyfranogwyr

- Faint o sesiynau gweithgarwch/hyfforddi sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, yn cynnwys y cyfranogwyr?
- Faint unwaith fydd y prosiect wedi cael ei gwblhau?

	Nawr				Wedi Cwblhau'r Prosiect			
	Nifer y sesiynau yr wythnos	Hyd y sesiynau	Nifer y Cyfranogwyr / Aelodau	Nifer y Timau	Nifer y sesiynau yr wythnos	Hyd y sesiynau	Nifer y Cyfranogwyr / Aelodau	Nifer y Timau
Bechgyn								
Genethod								
Plant Cymysg								
Dynion								
Merched								
Oedolion Cymysg								
Ieuenctid Anabl								
Oedolion Anabl								
Grwpiau o Blant o Gymunedau o Leiafrifoedd Ethnig								
Grwpiau o Oedolion o Gymunedau o Leiafrifoedd Ethnig								

3.2 - Hyfforddwyr

- Faint o hyfforddwyr, arweinwyr gweithgarwch a swyddogion cymorth cyntaf sydd gennych chi ar hyn o bryd?
- Faint fydd gennych chi yn eich tyb chi ar ôl cwblhau'r prosiect hwn?

	Nawr		Wedi Cwblhau'r Prosiect	
	Dynion	Merched	Dynion	Merched
Hyfforddwyr Lefel 1				
Hyfforddwyr Lefel 2				
Hyfforddwyr Lefel 3				
Arweinwyr				
Swyddogion Cymorth Cyntaf				

Sut fyddwch chi'n mesur canlyniadau'r prosiect?

Sut fyddwch chi'n parhau â'r prosiect wedi i'r grant ddod i ben?

A yw'r iaith GYMRAEG yn cael ei defnyddio wrth gyflwyno'r sesiynau hyn, yn rhannol neu'n llawn? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os Ydy: Dywedwch wrthym faint o sesiynau a gyflwynir yn y Gymraeg. Os yn berthnasol, dywedwch wrthym faint o bobl gyda chymwysterau cymwys sy'n gallu cyflwyno sesiwn gweithgarwch yn y Gymraeg.

Pa offer / gyfleusterau chwaraeon sydd gennych chi eisoes?

4.0 - Manylion Ariannol y Prosiect

4.1 - TAW

Ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW?	☐ Do ☐ Naddo	
Are you able to claim back your VAT?	☐ Ygym ☐ Nac ydym	

4.2 - Costau'r Prosiect

Ar beth fydd yr arian yn cael ei wario? Nodwch werth y TAW yn y Golofn TAW ochr yn ochr â'r eitemau hynny NAD YDYCH yn gallu adfer TAW yn eu herbyn?

Rhestrwch a nodwch bris ar gyfer pob eitem sy'n rhan o GYFANSWM costau eich prosiect.	Pris Net	TAW	Cyfanswm (Net + TAW)
Cyfansymiau			
Cyfanswm Costau'r Prosiect yn cynnwys TAW (A)			

4.3 - Cyfraniad Arfaethedig

Dangoswch i ni pa gyfraniad allwch chi ei wneud tuag at eich prosiect...	
Arian mewn Llaw (£)	
Grantiau o Ffynonellau Eraill (yn cynnwys Nawdd) (£)	
Cyfraniad o Fath Arall (£)	
Gweithgareddau Codi Arian Arfaethedig (£)	
Arall (£)	
Cyfanwm Costau'r Cyfraniadau (£) (B)	
Y Grant y Gwneir Cais Amdano, yn cynnwys TAW (A-B)	

5.0 - Datganiad yr Ymgeisydd

Mae'n rhaid i'r person cyswllt a enwir, ac un aelod awdurdodedig arall o'ch sefydliad, lofnodi'r datganiad hwn *(os yn defnyddio ffurflen wedi'i hargraffu)*, neu brintio ei enw *(os yn anfon y ffurflen yn electronig)*. Ni ddylai'r llofnodwyr awdurdodedig fod yn perthyn i'w gilydd.

Llofnod (os yn defnyddio ffurflen wedi'i hargraffu)	
Enw'r Prif Gyswllt (printiwch yr enw)	
Dyddiad	
Swydd yn y sefydliad	
Llofnod: Aelod Awdurdodedig (os yn defnyddio ffurflen wedi'i hargraffu)	
Aelod Awdurdodedig (printiwch yr enw)	
Dyddiad	
Swydd yn y sefydliad	

Telerau ac Amodau

☐ Bydd unrhyw grant a gynigir yn amodol ar Delerau ac Amodau Grant Chwaraeon Cymru ac rydych wedi derbyn copi o'r rhain. Darllenwch y Telerau a'r Amodau hyn cyn cyflwyno eich cais am grant. Ticiwch yma i ddynodi eich bod wedi gwneud hynny.

6.0 - Dogfennau Ategol

Cyflwynwch yr wybodaeth a ganlyn ar gyfer POB dyfarniad os gwelwch yn dda, ac eithrio'r Gist Gymunedol, er mwyn cefnogi eich cais:

- 3 dyfyn-bris gyda'r eitemau o offer chwaraeon wedi'u rhestru arnynt, os yw gwerth eitem unigol yn fwy na £250. Ar gyfer gwaith adeiladu, amcan-bris un Maintfesurydd o gostau neu 3 dyfyn-bris gyda'r eitemau wedi'u rhestru arnynt. Ticiwch i ddynodi eich bod wedi gwneud hynny. ☐ Wedi'u hatodi wrth anfon y ffurflen hon. ☐ I ddilyn erbyn (nodwch y dyddiad).

- Copïau o fantolennau banc y 3 mis diwethaf ar gyfer POB cyfrif sydd gan eich sefydliad (amherthnasol i Sefydliadau Statudol, Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus neu Gyrff Rheoli Cenedlaethol e.e. Byrddau Iechyd Lleol / Awdurdodau Lleol ac yn y blaen). Ticiwch i ddynodi eich bod wedi gwneud hynny. ☐ Wedi'u hatodi wrth anfon y ffurflen hon. ☐

Os nad ydych yn gallu darparu unrhyw rai o'r eitemau y gofynnir amdanynt, dywedwch pam wrthym yn y gofod a ddarperir.

7.0 - Beth Sy'n Digwydd Nesaf?

Cyn i chi anfon y ffurflen, dylech wneud y canlynol:

Gwneud yn siŵr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais.

Gwneud yn siŵr bod y ffurflen gais wedi cael ei llofnodi gan ddau berson ag awdurdod yn eich sefydliad.

Gwneud copi o'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau, ac o unrhyw ddogfennau ategol, a'u cadw mewn lle diogel er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Atodi'r holl ddogfennau ategol, fel a ddisgrifir yn 6.0 – Dogfennau Ategol

Ac yn olaf... ar gyfer POB dyfarniad, ac eithrio'r Gist Gymunedol, anfonwch y ffurflen gais wreiddiol wedi'i llenwi a'i llofnodi i:

Cefnogaeth Gorfforedig, Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.
Neu, anfonwch y ceisiadau'n electronig i: **grantfunding@sportwales.org.uk**

Ar gyfer y **Gist Gymunedol**, anfonwch eich ffurflen gais at Swyddog Grantiau eich Awdurdod Lleol (SGALl). Ceir manylion am sut i gyflwyno eich cais yn briodol yn y wefan a ganlyn: **www.chwaraeoncymru.org.uk/funding--support/our-grants/community-chest.aspx**

Diolch i chi am lenwi eich ffurflen gais. Byddwn yn cysylltu â chi yn fuan i symud eich cais yn ei flaen.

8.0 - Am Ragor o Wybodaeth

Ar gyfer POB dyfarniad, ac eithrio'r **Gist Gymunedol**, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau dyfarnu, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol agosaf:

- Cenedlaethol / De Ddwyrain: 0845 0450904
- De Orllewin: 0845 0450906
- Gogledd Ddwyrain: 0845 0450908
- Gogledd Orllewin: 0845 0450910

Ar gyfer y **Gist Gymunedol**, cysylltwch â Swyddog Grantiau eich Awdurdod Lleol (SGALl) perthnasol. Ceir manylion yn y wefan a ganlyn: **www.chwaraeoncymru.org.uk/funding--support/our-grants/community-chest.aspx**

Unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech i ni wybod amdani.

Cyfarwyddyd;

Ffurflen Gais am Grant Chwaraeon Cymru

Defnyddiwch y symbol hwn i ddychwelyd i'r ffurflen.

1.0 - Am Eich Sefydliad

1.1 Gall y cyfeiriad hwn fod yn gyfeiriad eich clwb neu eich man cyfarfod. Peidiwch â thalfyrru os gwelwch yn dda e.e. gallai CPDA gyfeirio at Glwb Pel Droed Athletaidd neu Amatur.

Bydd y cod post cywir o gymorth i gyflymu cyfnod prosesu eich cais.

1.2 Dywedwch wrthym ymhle fydd eich prosiect yn cael ei gynnal. Gall fod mewn nifer o leoliadau, fel neuadd gymunedol, cae chwarae, clwb chwaraeon neu barc gwledig. Nodwch gyfeiriad mor fanwl ag y bo modd os gwelwch yn dda.

Dywedwch wrthym ym mha un o'r 22 Awdurdod Lleol a ganlyn y bydd eich prosiect yn cael ei gynnal: Ynys Môn; Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Sir Gaerfyrddin; Ceredigion; Conwy; Sir Ddinbych; Sir y Fflint; Gwynedd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd; Sir Benfro; Powys; Rhondda Cynon Taf; Abertawe; Torfaen; Bro Morgannwg; Wrecsam.

Y cyfan rydyn ni eisiau ei wybod yw pryd ydych chi'n bwriadu dechrau'r prosiect a phryd fydd yn gorffen yn eich barn chi. Sylwer na ellir cyllido prosiectau sydd wedi dechrau eisoes.

1.3 **Manylion Cyswllt:** Nodwch fanylion cyswllt yr unigolyn y dylem gysylltu ag ef pe bai gennym unrhyw ymholiadau ynghylch y cais. Nodwch eich teitl e.e. Mr, Mrs, Ms a'ch enw cyntaf yn llawn.

Bydd y cod post cywir o gymorth i gyflymu amser prosesu eich cais.

Er enghraifft, 'Ysgrifennydd Clwb'.

Y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw ticio'r blwch os hoffech dderbyn gohebiaeth gennym drwy e-bost gydag eitemau perthnasol i'r prosiect hwn e.e. ceisiadau am wybodaeth ychwanegol perthnasol i'ch prosiect.

1.4 Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â chyfrif banc yn enw'r sefydliad. Dylai enw'r cyfrif banc ddarllen yn union fel mae'n ymddangos ar fantolennau banc eich sefydliad, neu ei lyfr sieciau. Peidiwch â thalfyrru os gwelwch yn dda - ysgrifennwch yr enw yn llawn.

Nid oes angen manylion y Cyfrif Banc ar gyfer dyfarniadau'r **Gist Gymunedol**.

1.5 Dywedwch wrthym pa fath o sefydliad ydych chi.

Dywedwch wrthym a yw eich sefydliad yn gwneud elw.

Mae'n rhaid i fudiadau gwirfoddol sy'n gwneud cais am grant fod â chyfansoddiad priodol. Efallai y bydd gofyn i chi gyflwyno copi o Gyfansoddiad eich Sefydliad os cynygir dyfarniad i chi.

Argymell Aelodaeth: Os ydych yn glwb chwaraeon, rydym yn argymell eich bod yn dod yn aelod o'ch Corff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol. Bydd rhai Cyrff Rheoli'n mynnu bod eich clwb yn aelod os yw eisiau cymryd rhan mewn cynghreiriau a / neu at ddibenion yswiriant.

1.6 Dywedwch wrthym os yw eich sefydliad wedi derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru o'r blaen.

Nodwch y flwyddyn (blynyddoedd) pryd cafwyd y dyfarniad(au) ac, os oes modd, faint oedd eu gwerth. Os oes gennych rif cyfeirio perthnasol i unrhyw ddyfarniadau blaenorol, byddai hynny o ddefnydd hefyd.

Bydd prosiect yn parhau ar agor nes bod pob ffurflen hawlio a monitro wedi cael eu cyflwyno i Chwaraeon Cymru.

Efallai na fydd eich prosiect yn gymwys i dderbyn cyllid os oes unrhyw ddyfarniadau blaenorol heb eu cau gan Chwaraeon Cymru.

2.0 - Am Eich Prosiect

Dywedwch wrthym beth yw enw eich prosiect a sut fyddech yn hoffi iddo ymddangos ar unrhyw ohebiaeth a anfonir atoch gennym ni.

Dywedwch wrthym beth ydych eisiau ei wneud e.e. Sefydlu Dosbarth Pilates yn y neuadd gymunedol; Cynyddu nifer y sesiynau hyfforddi bob wythnos drwy osod goleuadau hyfforddi yn eu lle; Sicrhau cynnydd yng nghymwysterau hyfforddi eich hyfforddwyr, o lefel 1 i lefel 2. Does dim rhaid i chi fynd i ormod o fanylder - bydd rhestr o bwyntiau bwled yn gwbl dderbyniol.

Meysydd blaenoriaeth Chwaraeon Cymru yw merched a genethod, pobl anabl a grwpiau o gymunedau o leiafrifoedd ethnig. Dywedwch wrthym am unrhyw effaith a gaiff eich prosiect ar y grwpiau hyn. **Sylwer:** Er nad yw'n ofyniad gorfodol, rhowch wybod i ni a fydd yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y prosiect, ac ym mha ffordd.

Dywedwch wrthym pam eich bod wedi penderfynu cynnal eich prosiect a pha wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud.

3.0 - Am Eich Aelodaeth a'ch Rhaglen Weithgarwch

3.1 **Nawr:** Dywedwch wrthym faint o sesiynau gweithgarwch a gynigir gan eich sefydliad ar hyn o bryd. Gall "Gweithgarwch" olygu sesiwn hyfforddi, gornest chwaraeon, dosbarth ymarfer neu ffurfiau eraill ar ymarfer, fel mynd i gerdded yn ystod amser cinio neu feicio.
Wedi Cwblhau'r Prosiect: Dywedwch wrthym faint o sesiynau gweithgarwch a gynigir gennych chi wedi cwblhau'r prosiect.

3.2 Er mwyn arwain gweithgareddau, dylai arweinwyr cymunedol fod yn 16 oed neu'n hŷn. Gall hyn amrywio, gan ddibynnu ar y gamp. Cysylltwch â'ch Corff Rheoli am eglurhad. Ar gyfer y cais hwn, gall 'Hyfforddwr' olygu Cynorthwy-ydd, Prentis, Uwch-Hyfforddwr neu Hyfforddwr Meistr.

Canlyniadau: Byddwn yn chwilio am dystiolaeth bod eich prosiect wedi gwneud gwahaniaeth, felly byddwch angen dull o fesur y newidiadau sy'n cael eu gwneud. Mewn geiriau eraill, sut fyddwch chi'n gallu dangos bod yr aelodaeth wedi cynyddu neu eich bod wedi gwella amledd neu safon y sesiynau hyfforddi?

Dim ond eich helpu i sefydlu'r prosiect yw diben y grant – eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ei fod yn llwyddiant yn yr hirdymor. Felly dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud er mwyn codi'r arian angenrheidiol i dalu'r costau parhaus, fel hyfforddiant neu logi cyfleusterau. Mae'n rhaid i chi ddangos pa mor gynaliadwy yw'r prosiect.

Os oes modd cyflwyno UNRHYW RAI o'ch sesiynau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, yn rhannol neu yn llawn, dynodwch hyn drwy ateb YDY i'r cwestiwn hwn.

Os ydych yn gwneud cais am offer ar gyfer darparu cyfleusterau, a wnewch chi ddarparu manylion am yr offer / cyfleusterau sydd gennych chi ar hyn o bryd os gwelwch yn dda, neu'r offer / cyfleusterau yr ydych yn cael gwneud defnydd ohonynt.

4.0 - Manylion Ariannol y Prosiect

4.1 Dywedwch wrthym os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW.

Dywedwch wrthym os ydych chi'n gallu adfer eich TAW, yn rhannol neu yn llawn.

4.2 **Cyfanswm Costau'r Prosiect TAW:** Nodwch beth yw cyfanswm costau'r prosiect, yn cynnwys TAW, lle NAD YDYCH yn gallu adfer yr elfen o TAW.

Nodwch a rhowch bris ar gyfer pob eitem sy'n rhan o GYFANSWM costau eich prosiect.	Pris Net	TAW	Cyfanswm (Net + TAW)
Peli Criced	100.00	20.00	120.00
Peiriant Bowlio	1000.00	0.00	1000.00
Rhwydi Criced	1000.00	200.00	1200.00
2 x Hyfforddiant Lefel 1	200.00	0.00	20.00
Llogi Cerbyd	300.00	60.00	360.00
Llogi Cae	200.00	0.00	200.00
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf	175.00	0.00	175.00
Cyfansymiau	**2975.00**	**280.00**	**3075.00**
Cyfanswm Costau'r Prosiect, yn cynnwys TAW (A)			**3075.00**

Cyfanswm Costau'r Prosiect: Nodwch yn glir ar beth rydych yn bwriadu gwario'r arian. Dylai'r costau fod yn realistig. Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf neu brynu offer (ac eithrio dyfarniadau'r Gist Gymunedol), mae'n rhaid i chi gyflwyno tri dyfyn-bris gyda'r eitemau wedi'u rhestru arnynt, lle mae gwerth eitem unigol yn fwy na £250. Ar gyfer gwaith adeiladu, gallwn dderbyn amcan-bris un maintfesurydd ar gyfer y costau, neu dri dyfyn-bris gyda'r eitemau wedi'u rhestru arnynt.

4.3

Cyfraniad Arfaethedig: Dywedwch wrthym am y cyllid y gallwch chi ei gyfrannu at y prosiect, e.e. cyllid yng nghyfrif banc eich sefydliad, elw o achlysur codi arian, nawdd, cyfraniadau o fath gwahanol, fel costau llafur neu gyfraniadau aelodau at gostau'r prosiect.

Y Grant y Gwneir Cais Amdano: Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli cyfanswm costau eich prosiect, yn cynnwys TAW llai UNRHYW gyfraniadau gennych chi eich hun neu o ffynonellau eraill.

Arian mewn Llaw (£)	718.00
Grantiau o Ffynonellau Eraill (yn cynnwys Nawdd) (£)	200.00
Cyfraniad o Fath Arall (£)	
Gweithgareddau Codi Arian Arfaethedig (£)	
Arall (£)	
Cyfanwm Costau'r Cyfraniadau (£)	**918.00**
Y Grant y Gwneir Cais Amdano, yn cynnwys TAW (A-B)	**2157.00**

5.0 - Datganiad yr Ymgeisydd

Mae'n bwysig bod y person cyswllt a enwir, ac un aelod awdurdodedig arall o'ch sefydliad, yn llofnodi'r datganiad hwn. Gwnewch yn siŵr nad yw'r llofnodwyr awdurdodedig yn perthyn i'w gilydd.

Telerau ac Amodau: Sylwer bod eich datganiad yn cadarnhau eich bod wedi darllen a derbyn y telerau a'r amodau. Cyn llofnodi'r ffurflen hon, mae hwn yn amser da i edrych drwy eich cais yn ofalus a gwneud yn siŵr eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau perthnasol.

6.0 - Dogfennau Ategol

Ar gyfer yr HOLL ddyfarniadau, ac eithrio'r dyfarniadau ar gyfer cynllun y **Gist Gymunedol**, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darparu'r dogfennau ategol y gwnaed cais amdanynt. Heb y dogfennau angenrheidiol, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Os yw'r offer yn offer gan gyflenwr arbenigol, mae llai na 3 dyfyn-bris yn dderbyniol.

Cyflwynwch fantolennau ar gyfer POB cyfrif sydd gan eich sefydliad, os gwelwch yn dda.

Os nad ydych yn gallu darparu unrhyw eitemau y gofynnwyd amdanynt er mwyn cefnogi eich cais, dywedwch wrthym beth yw'r rheswm dros hynny.

7.0 - Beth Sy'n Digwydd Nesaf

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi ateb pob cwestiwn perthnasol ac wedi darllen y dogfennau ategol. Dynodwch eich bod wedi gwneud hynny drwy dicio'r blychau priodol.
- Os na fydd y dogfennau ategol yn cael eu cyflwyno, gall hyn arwain at oedi gyda phrosesu eich cais.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich cais i'r lleoliad cywir, er mwyn iddo gael ei broses cyn gynted ag y bo modd.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth am ein cynlluniau dyfarnu, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol agosaf:

  Cenedlaethol / De Ddwyrain: 0845 045 0904
  De Orllewin: 0845 045 0906
  Gogledd Ddwyrain: 0845 045 0908
  Gogledd Orllewin: 0845 045 0910

sportwales
chwaraeoncymru

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government